



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhaglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru 2014–2020

**Gwybodaeth a Chyfarwyddiadau
Cyhoeddusrwydd**

Contents

CYFLWYNIAD	3
TROSOLWG O'R PRIF OFYNION CYHOEDDUSRWYDD	4
PRIF OFYNION CYHOEDDUSRWYDD	5
Logos.....	5
Gwybodaeth ar gyfer buddiolwyr	5
Placiau coffaol	5
Posterï	6
Gwefan	6
Datganiadau i'r wasg	6
Diwrnod Ewrop	6
Arferion gorau.....	7
Cyfryngau cymdeithasol	7
R WYDDELEG, Y GYMRAEG, MYNEDIAD A CHYNALIADWYEDD	7
DANGOS EICH GWEITHGAREDDAU CYHOEDDUSRWYDD.....	8
CYSWLLT AR GYFER CYNGOR A GWYBODAETH BELLACH YNGLŶN Â CHYHOEDDUSRWYDD.....	8
ATODIAD A	9
LOGOS.....	9

CYFLWYNIAD

Mae'r wybodaeth a'r canllawiau hyn ynglŷn â chyhoedduswydd wedi cael eu datblygu er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyhoedduswydd, a thynnu sylw at y cyfraniad mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn ei wneud trwy Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru 2014–2020, ac i sicrhau eich bod chi, fel noddwyr prosiect, partneriaid a buddiolwyr, yn cydymffurfio â rheoliadau'r UE, fel nad yw'r ddau ranbarth yn colli arian.

Mae €79 miliwn o arian Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi cael ei ddyrannu i Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru 2014–2020. Gyda'r arian cyfatebol, cyfanswm y buddsoddiad yw €100. Mae'n bwysig bod ein partneriaid prosiect a buddiolwyr yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyfathrebu cyfleoedd a chyflawniadau Rhaglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru, a'r cyllid mae'n ei dderbyn gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sy'n helpu i wella rhagolygon economaidd trwy brosiectau cydweithredol, gan gynnwys arloesedd, newid i'r hinsawdd, adnoddau diwylliannol a naturiol, treftadaeth a thwristiaeth.

Mae llawer o ffyrdd yr ydych yn gallu hyrwyddo eich prosiect Iwerddon–Cymru, a'r cyfraniad y mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi'i wneud i'r gwaith o'i gyflawni. Er enghraifft, trwy'r defnydd o ddatganiadau i'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau, yn ogystal â thrwy drefnu lansiadau, digwyddiadau ac ymweliadau â'ch prosiect gan weinidogion. Ffordd bwysig arall o ddangos effaith eich prosiect yw trwy astudiaethau achos a storïau o ddi-ddordeb dynol. Bydd yn ofynnol hefyd i bartneriaid prosiect ddangos placiau coffaol a phosteri ac arnynt logos Iwerddon–Cymru (tra bydd yn ofynnol i fuddiolwyr ddangos poster), gan mai dyma'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer cynyddu gwelededd cyllid yr UE gerbron cynulleidfa eang.

Wrth gwrs, mae llawer o ffyrdd eraill o gyhoeddi eich prosiect, ac rydym yn eich annog i fod yn arloesol wrth ichi gynllunio gweithgareddau cyfathrebu.

Mae gan y partner arwain yn enwedig rôl hanfodol i'w chwarae wrth ddatblygu dull cydlynol ar gyfer cyfathrebu, ac mae'n rhaid iddo sefydlu cynllun cyfathrebu ar y cyd â'i bartneriaid gweithredol yn Iwerddon a Chymru. Bydd y partner arwain yn gyfrifol am gydlyn cynllun cyfathrebu'r prosiect, ac am sicrhau bod y prosiect wedi cael ei hyrwyddo'n ddigonol gerbron y bobl a fydd yn gwneud penderfyniadau, y cyfryngau lleol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Wrth lunio cynllun cyfathrebu, dylai partneriaid arwain amlinellu'r canlynol:

- sut rydych yn bwriadu hysbysu buddiolwyr/cyfranogwyr/busnesau am gymorth cyllidol a gafwyd gan yr UE trwy Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru;
- sut rydych yn bwriadu hyrwyddo eich prosiect, trwy ba sianeli ac i ba gynulleidfaeodd;
- sut rydych yn bwriadu arddangos placiau a phosteri mewn mannau amlwg.

Rydym yma i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich cyhoeddusrwydd, felly dywedwch wrthym pan fyddwch yn datblygu eich cynlluniau cyfathrebu, ac am unrhyw gerrig milltir a storïau newyddion da ynglŷn â'r gwaith o gyflawni eich prosiect UE. Rydym yn gallu hyrwyddo storïau newyddion da trwy wefan Rhaglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru www.irelandwales.eu a Twitter @irelandwales, felly dywedwch wrthym am eich cyflawniadau.

Cofiwch fod yr holl ddatganiadau ynglŷn â dyfarnu cyllid yr UE ar gyfer prosiectau'n cael eu harwain gan weinidogion Cymru ac Iwerddon. Rydym yn gallu helpu gyda'r gwaith o gynllunio a pharatoi cyhoeddusrwydd ar gyfer datganiad gan weinidogion, er mwyn inni godi ymwybyddiaeth yn eang ar gyfer eich prosiect UE. Rydym hefyd yn gallu trefnu cynnwys dyfyniadau gan weinidogion yn eich datganiadau i'r wasg lle bo hynny'n briodol, yn ogystal ag ymweliadau â'ch prosiect gan weinidogion.

Cofiwch hefyd fod digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddusrwydd eraill yn gostau prosiect dilys, felly trafodwch â'ch Swyddog Gweithredu Iwerddon–Cymru ar ddechrau eich cais am gyllid yr UE, er mwyn i'r costau hyn gael eu cynnwys yng nghynllun busnes eich prosiect.

TROSOLWG O'R PRIF OFYNIION CYHOEDDUSRWYDD

Unwaith mae cymorth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer eich prosiect trwy Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru, mae'n hanfodol eich bod chi, a'ch partneriaid, yn cynnal y gweithrediadau cyhoeddusrwydd canlynol ar gyfer eich prosiect, a thynnu sylw at gymorth gan yr UE. Mae hyn yn cynnwys:

- cydnabod '**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru**' mewn ffordd amlwg, gan gynnwys y defnydd o logos y rhaglen (gweler Atodiad A), pan fyddwch yn hysbysebu eich prosiect neu'n cyfeirio ato, h.y. yr holl ddatganiadau i'r wasg, newyddlenni, cynnwys ar lein a chyfryngau cymdeithasol, a deunyddiau marchnata eraill;
- hysbysu'r rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys cyfranogwyr, busnesau a chontractwyr, eu bod yn elwa ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru;
- sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn arddangos plac coffaol parhaol;
- sicrhau bod partneriaid a buddiolwyr sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn arddangos poster (gan ddefnyddio templed a ddarperir) mewn lle amlwg lle mae gweithgareddau'r prosiect yn cael eu cynnal;
- rhoi logos perthnasol Iwerddon–Cymru ar eich gwefan, gyda dolen i www.irelandwales.eu;

- cysylltu â Tîm Cyfathrebu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wefo-communications@gov.wales er mwyn trefnu i weinidogion gyhoeddi'r dyfarniad o gyllid ar gyfer eich prosiect;
- dathlu Diwrnod Ewrop;
- hyrwyddo ffotograffau arferion gorau, cerrig milltir y prosiect, a storïau am lwyddiannau.

PRIF OFYNION CYHOEDDUSRWYDD

Logos

Rhaid i'r holl bartneriaid arwain a chyd-bartneriaid ddefnyddio pedwar logo'r rhaglen (gweler Atodiad A) mewn deunyddiau argraffedig, cyhoeddiadau, ac ar-lein. Mae hyn yn cynnwys hysbysebion, taflenni, swydd-ddisgrifiadau, newyddlenni, penawdau llythyron, cardiau busnes, adroddiadau, dogfennaeth prosiect – er enghraifft, taflenni amser, deunyddiau ymsefydlu, eitemau marchnata, deunyddiau ysgrifennu corfforaethol, gwahoddiadau ac ati.

Rhaid defnyddio pob un o bedwar logo'r rhaglen yn y drefn uchod. Mae logos ar gael mewn strip neu ar wahân yn fformatau EPS a JPEG gan Dîm Cyfathrebu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, neu gellir eu lawrlwytho oddi ar dudalennau gwe Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Rhaid i'r holl logos gael eu cynhyrchu i safon foddhaol a bod yn llawn ddarllenadwy. Gweler Atodiad A. Ym mob achos, dylai logo Llywodraeth Cymru/yr UE fod o leiaf 45mm ar draws a 33mm i fyny. I sicrhau bod logos yn cael eu harddangos mewn modd priodol ar eich deunyddiau cyhoeddusrwydd, gofynnir ichi anfon drafft o'r dyluniadau arfaethedig at Dîm Cyfathrebu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer cyngor a chymeradwyaeth.

Gwybodaeth ar gyfer buddiolwyr

Rhaid i noddwyr prosiect a phartneriaid sydd wedi derbyn cymorth cyllidol gan yr UE (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) sicrhau bod eu buddiolwyr/cyfranogwyr/busnesau a chontractwyr yn gwybod eu bod yn cymryd rhan mewn prosiect a ariennir gan yr UE. Nodi'n eglur y cymorth gan gyllid yr UE mewn llythyrau at fuddiolwyr sy'n cymryd rhan yn y prosiect, yn ogystal â defnyddio logos y rhaglen ar dystysgrifau dyfarniadau/ffurflenni cais ac ati – dyma ddim ond ychydig o enghreifftiau yn unig ar gyfer tynnu sylw at y cymorth gan gyllid yr UE. Dylai'r plac coffaol a'r poster gael eu lleoli lle mae'n hawdd i fuddiolwyr eu gweld.

Placiau coffaol

Rhaid i bartneriaid arwain a chyd-bartneriaid arddangos plac coffaol parhaol (mae placiau mewnol a phlaciau allanol ar gael yn rhad ac am ddim gan y Gydysgrifenyddiaeth xxxx) sy'n dangos y gwahanol logos. Rhaid arddangos y plac mewn lleoliad amlwg (e.e. mynedfa safle/derbynfa), sy'n hawdd ei weld gan y cyhoedd, staff, cyfranogwyr a buddiolwyr eraill.

Poster

Rhaid i'r holl bartneriaid a buddiolwyr cymorth arddangos o leiaf un poster (o leiaf maint A3) mewn lle amlwg (e.e. mynedfa safle/derbynfa), sy'n hawdd ei weld gan y cyhoedd, staff, cyfranogwyr a buddiolwyr eraill. Darperir templed dylunio gan y Gydysgrifenyddiaeth at ddibenion yr arferion gorau, ond y gofyniad lleiaf yw ei bod yn rhaid i'r poster dynnu sylw at enw'r prosiect, ei brif amcan, faint o gymorth cyllidol mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn ei roi, a'r datganiad 'Arian yr UE: Buddsoddi yn Iwerddon a Chymru', a'r gwahanol logos (gweler Atodiad A).

Gwefan

Lle mae partner/buddiolwr yn gweithredu ei wefan ei hun, rhaid i'r buddiolwr gyhoeddi'r canlynol mewn lle amlwg ac mewn fformat hygyrch: disgrifiad byr o'r prosiect gan gynnwys ei amcanion a'i ganlyniadau, y cymorth cyllidol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, a'r gwahanol logos (gweler Atodiad A). **Os oes gwefan yn cael ei gweithredu at unig ddiben hyrwyddo gweithgareddau'r prosiect(au) a ariennir gan yr UE, rhaid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar dudalen gartref y wefan.** Sicrhewch fod y logo o leiaf xxmm ar draws a xxmm i fyny, a bod dolenni i wefan Iwerddon–Cymru.

Datganiadau i'r wasg

Rhaid i'r holl ddatganiadau i'r wasg, erthyglau a hysbysebion sy'n gysylltiedig â'ch prosiect UE, buddiolwyr, busnesau ac ati gydnabod y cyllid a dderbyniwyd gan **'Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru'**. Dylai hyn gael ei gynnwys mewn lle amlwg ym mhrif destun datganiadau i'r wasg, h.y. nid mewn 'Nodiadau i Olygyddion' neu fel troednodyn.

Dylid anfon copi drafft o ddatganiadau i'r wasg cyn gynted ag y bo modd cyn iddynt gael eu cyhoeddi at Dîm Cyfathrebu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Bydd y drefn hon hefyd yn caniatáu inni ystyried cynnwys dyfyniad gan weinidogion a/neu sicrhau bod gweinidog yn gallu mynychu'r digwyddiad arfaethedig, yn ogystal â'r posibilrwydd o gyfrannu at y broses o gynllunio'r digwyddiad. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar unrhyw gysylltiadau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â digwyddiadau, cyflawniadau'r prosiect a cherrig milltir/astudiaethau achos trwy hyrwyddo storïau ar wefan Iwerddon–Cymru a chyfryngau cymdeithasol, a sicrhau sylw rhanbarthol/cenedlaethol/Ewropeaidd ac ati.

Diwrnod Ewrop

Budd buddiolwyr yn cael eu hannog i gynnal rhaglen o weithgareddau gwybodaeth/dathliadau ar 9 Mai neu yn ystod y dyddiau o'i gwmpas, er mwyn hyrwyddo manteision a chyflawniadau eu gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan yr UE.

Arferion gorau

Budd buddiolwyr yn cael eu hannog i rannu eu ffotograffau a'u hastudiaethau achos â'r Gydysgrifenyddiaeth, er mwyn iddynt gael eu defnyddio mewn amrywiaeth o fesurau cyhoeddusrwydd i hyrwyddo manteision a chyflawniadau cyllid yr UE. Bydd buddiolwyr hefyd yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyhoeddusrwydd a arweinir gan y Gydysgrifenyddiaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd, megis cystadleuaeth ffotograffau 'Ewrop yn eich Rhanbarth', diwrnodau agored ac ati.

Cyfryngau cymdeithasol

Dylai logos/cydnabyddiaeth o gymorth gan yr UE fod yn weladwy iawn ar eich holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol. Os nad yw'r logos yn gallu cael eu cynnwys yn hawdd, yna dylid cynnwys cydnabyddiaeth o'r cymorth cyllidol. Er enghraifft, dylai trydariadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r prosiect gyfeirio at 'Rhaglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru yr UE'. Er enghraifft:

"Mae prosiect INVEST wedi cael ei lansio i roi cymorth i fusnesau, diolch i Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru yr UE #UEIwerddonCymru"

Mae defnyddio'r cyfeirnod EU-funds a/neu'r hashnod yn ein galluogi i ddilyn y sgwrs, a lle bo hynny'n briodol, hyrwyddo neu aildrydaru rhai o'ch gweithgareddau. Yn yr un modd, pan fyddwch yn paratoi clipiau fideo neu roi deunydd fideo ar YouTube, gofynnir ichi gynnwys y logos perthnasol mewn lle amlwg ar y dudalen deitl. Hefyd, dylech chi sicrhau bod unigolion yn cyfeirio ar lafar at 'Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru yr UE' o fewn sgrïpt y fideo. Er enghraifft:

"Gyda chymorth gan Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru yr UE, rydym wedi llwyddo i helpu rhagor o fusnesau..... "

R WYDDELEG, Y GYMRAEG, MYNEDIAD A CHYNALIADWYEDD

Dylech chi sicrhau bod yr holl wybodaeth a deunyddiau cyhoeddusrwydd yn llawn hygyrch ac ar gael i gynulleidfa eang ac amrywiol (Deddf Cydraddoldeb 2010), ac y gallir eu darparu, ar gais, mewn fformatau hygyrch, e.e. Braille.

Rhaid i bartneriad Cymru sicrhau bod y safonau a amlinellir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cael eu mabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyhoeddiadau, gwefannau, deunyddiau cyhoeddusrwydd ac ati sy'n derbyn cymorth gan Raglen Gydweithredu Iwerddon–Cymru yn gallu cael eu darparu'n ddwyieithog.

Rhaid i bartneriaid Iwerddon sy'n gyrrff cyhoeddus gydymffurfio â Deddf Ieithoedd Swyddogol 2003. Cyfeiriwch at Swyddfa An Comisinéir Teanga ar gyfer rhagor o wybodaeth ynglŷn â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Yn ogystal, dylid ystyried yr amgylchedd a datblygiad cynaliadwy yn ofalus wrth gynhyrchu deunydd argraffedig, a'r defnydd o ddeunyddiau ailgylchadwy.

DANGOS EICH GWEITHGAREDDAU CYHOEDDUSRWYDD

Bydd disgwyl ichi gadw cofnodion i ddangos eich bod yn cynnal y gweithgareddau cyhoeddusrwydd hyn. Mae'n bwysig eich bod yn cadw copïau o ddatganiadau i'r wasg, newyddlenni, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, a thystiolaeth o'r defnydd o blaciau a phosteri yn ystod cylch bywyd eich prosiect. Bydd disgwyl ichi amlinellu trefniadau tebyg ar gyfer darparwyr a chontractwyr sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni prosiectau.

Bydd y dystiolaeth hon hefyd yn derbyn sylw yn ystod archwiliadau o'r prosiect. Bydd archwiliadau a gwiriadau dilysu'n cael eu cynnal ar gyfer prosiectau gan yr Awdurdod Rheoli yng Nghymru. Yn ogystal, mae archwiliadau a gwiriadau o ddetholiad o brosiectau'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Archwilio a'r Comisiwn Ewropeaidd. Cofiwch:

Mae'n bosib y bydd rhywfaint o'r cyllid neu'r holl gyllid yn cael ei adennill os nad yw cymorth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cael ei gydnabod, yn unol â'r llythyr cytundeb cyllid a'r cyfarwyddyd gwybodaeth a chyhoeddusrwydd hwn.

CYSWLLT AR GYFER CYNGOR A GWYBODAETH BELLACH YNGLŶN Â CHYHOEDDUSRWYDD

Gofynnir ichi ein hysbysu am eich cyflawniadau, eich cerrig milltir a'ch storïau am lwyddiannau, er mwyn inni eich cynorthwyo i fanteisio i'r eithaf ar gyhoeddusrwydd – er enghraifft, trwy ein sianel Twitter a'n gwefan ni, yn ogystal ag ystyried cyfraniad gan weinidogion. Hefyd, anfonwch eich deunyddiau/dyluniadau ar gyfer brandio/marchnata (gan gynnwys dimensiynau logo'r UE) i'w cymeradwyo mewn digon o amser, er mwyn inni allu darparu cyngor a chymorth priodol i sicrhau eich bod yn cyrraedd eich terfyn amser.

[Gydysgrifenyddiaeth:IrelandWalesCrossBorderProgramme@gov.wales](mailto:IrelandWalesCrossBorderProgramme@gov.wales)

Llinell Gymorth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru: 0845 0103355

ATODIAD A

LOGOS

Dylid arddangos logos Llywodraeth Cymru/Iwerddon–Cymru/yr UE/Llywodraeth Iwerddon a'r Southern Regional Assembly (SRA) ar yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd. Logo Jpeg ar gael o'r Tîm Cyfathrebu.

